

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## CYNLLUN GWEITHREDU HINSAWDD CYMUNEDOL

# DYFFRYN PERIS








# CYNNWYS


Cefndir ........ 4

Canllawiau Gweithredu ........ 5

Syniadau Gweithredu ........ 6

Gwybodaeth Bellach ........ 12

# CEFNDIR

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi ei lunio gan drigolion o Ddyffryn Peris a ddaeth at ei gilydd mewn Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd rhwng Mai 2022 a Chwefror 2023.

GwyrddNi, mudiad gweithredu ar newid hinsawdd fu'n trefnu a hwyluso'r Cynulliadau mewn cydweithrediad â Cyd Ynni, ein partner lleol yn Nyffryn Peris. Arianwyd y gwaith gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Cynhaliwyd rhaglen addysg mewn ysgolion lleol a phedair sesiwn gyda'r aelodau yn y gymuned er mwyn dysgu, rhannu a thrafod cyn cydweithio i ateb y cwestiwn: Sut allwn ni yn Nyffryn Peris ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?

Mae'r atebion i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu hwn. Mae gwahoddiad nawr i unrhyw un o'r ardal sydd â diddordeb i ymuno ar y daith i wireddu'r syniadau hyn.




DEG Datblygiadau Egni Gwledig

CYD YNNI

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



# CANLLAWIAU GWEITHREDU

Wrth ymateb yn lleol i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol, bydd holl weithredu hinsawdd cymunedol yn;

| | |
|---|---|
| **DEG, CYNHWYSOL A CHREADIGOL**<br>Cefnogi diwylliant, iaith, amrywiaeth, creadigrwydd, mynediad a chydraddoldeb | **ADEILADU GWYTNWCH CYMUNEDOL**<br>Gofalu am y gymuned a'i gwneud yn fwy gwydn i beth bynnag fydd yn digwydd yn y dyfodol |
| **ELWA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br>Parchu natur, cynefinoedd a bioamrywiaeth, a ble mae'n bosib, ei gynyddu | **GWYBODUS**<br>Cymryd i ystyriaeth gwybodaeth, profiad a barn, meddwl hir-dymor ac adnabod y rhyng-gysylltiad rhwng popeth |

## > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| DŴR A THIR | Cynyddu gwybodaeth am beth sydd yma yn barod gan adnabod a mapio cynefinoedd, bioamrywiaeth a rhywogaethau ymledol i arwain ein hymagwedd.<br>Cymryd ymagwedd lle wrth le, osgoi 'datrysiadau blanced' a gweithio gyda thirfeddianwyr i greu clytwaith o ymatebion addas i le.<br>Cefnogi llewyrch cynefinoedd, rhywogaethau o blanhigion, coed ac anifeiliaid yn y llefydd cywir ar gyfer bioamrywiaeth, rheoli llifogydd a chynhyrchu bwyd. | Cefnogi prosiectau parod e.e. Prosiect Natur Llandeiniolen a chanfod ffyrdd o hysbysebu am wirfoddolwyr.<br>Adnabod tirfeddianwyr sydd eisiau gweithio gyda ni i dreialu'r ymagwedd yma.<br>Cychwyn mapio y rhywogaethau ymledol (e.e. Jac y Neidiwr) a phwy sy'n gwneud be' amdanyn nhw yn barod.<br>Canfod os oes gwlyptiroedd/mawnogydd coll/dirywiedig ac annog cread/adferiad mannau gwlyb.<br>Canfod pwy/ble all elwa o gynnydd mewn gorchudd coed ar gyfer rheoli llifogydd/ bioamrywiaeth a dod o hyd i'r ffordd orau o'u creu.<br>Canfod rhywogaethau allweddol yn y dyffryn allai gael effaith sylweddol e.e. Cribell Felen; fod yn rywogaeth arwyddocaol (fel Bronwen y Dŵr); gael ei adnabod yn rhwydd gan wirfoddolwyr; annog cynefinoedd bioamrywiol (e.e. Baner y Gors); bod yn rhywbeth mae pobl yn teimlo gofal amdano (e.e. wiwerod coch). |



## > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| MENTRAU CYMDEITHASOL A PHARTNERIAETHAU | **Er mwyn adeiladu capasiti, gweithgarwch a gwytnwch cymunedol, byddwn yn:**<br>Edrych i sefydlu Partneriaeth Gymunedol i gydlynnu gweithredu cymunedol, canfod cyllid, gwrando i'r gymuned, cynllunio a hybu ac ysgogi gweithredu, gweithio gyda busnesau, cyd-gynhyrchu newid cadarnhaol a mynd i'r afael a newid hinsawdd.<br>Caffael asedau cymunedol<br>Canfod cydlynydd gwirfoddolwyr ar ol ymchwilio modelau.<br>Datblygu hybiau cymunedol ym mhob cymuned i gefnogi ein gilydd. | Ymgysylltu gyda mentrau cymdeithasol eraill e.e. Cwmni Bro + Partneriaeth Ogwen a rhwydwaith mentrau Gwynedd i ymchwilio be all weithio.<br>Ymchwilio modelau cyllido a modelau gwirfoddoli.<br>Ymchwilio caffael asedau cymunedol (e.e. Mynydd Gwefru) a trosglwyddiad asedau gan Cyngor Gwynedd a creu rhestr asedau.<br>Ymgysylltu gyda ArdalNi 2035.<br>Ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach a dod a grwpiau ynghyd. |

# > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| ECONOMI GYLCHOL | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Economi Gylchol er mwyn lleihau treuliant adnoddau a chynyddu gwydnwch cymunedol trwy rannu adnoddau.<br>**Byddwn yn:**<br>Creu gofodau cymunedol i letya<br>Caffis trwsio<br>Llyfrgell pethau<br>Cyfnewidfa ddillad<br>Hwb addysg ail-gylchu<br>Datblygu system rhannu amser i helpu ein gilydd.<br>Cyd-greu dosbarthiadau awyr agored gyda ysgol/ion lleol o ddeunydd wedi ei ail-bwrpasu. | Gwirfoddolwyr yn ymchwilio systemau rhannu amser o ardaloedd eraill e.e. LETS o Totness a cheisio recriwtio gwirfoddolwyr eraill.<br>Cynllunio a chynnal digwyddiadau prawf e.e. cyfnewidfa ddillad a caffi trwsio.<br>Ymgynghori ymhellach gyda ysgolion GwyrddNi i drafod creu dosbarthiadau awyr agored.<br>Parhau i gyfarfod fel grwp gweithredu Economi Gylchol a dysgu gan ardaloedd eraill. |
| TRAFNIDIAETH GYNALIADWY | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Trafnidiaeth a Symudedd er mwyn lleihau allyriadau carbon cerbydau, gwella cyswllt rhwng pentrefi, gwella diogelwch a lleihau swn a thraffig.<br>**Byddwn yn:**<br>Chwyldroi trafnidiaeth ysgol.<br>Hybu apiau at ddefnydd bysiau a rhannu lifft.<br>Annog rhwydwaith aml-drafnidiaeth diogel a chydlynedig. | Creu pwyllgor bws cerdded ysgol Llanrug.<br>Codi pedestrianeiddio gyda chynghorau ac ysgolion.<br>Canfod mwy o wybodaeth am lwybrau beics. |



# > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| EFFEITHLONRWYDD ADEILADAU | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Adeiladau ac Effeithlonrwydd er mwyn lleihau allyriadau CO2, gwella opsiynnau tai a chostau ynni a datblygu sgiliau lleol.<br>**Byddwn yn:**<br>Eirioli am well safon mewn adnewyddu ac adeiladu o'r newydd - gyda egwyddorion Passivhaus<br>Eirioli ar gyfer newid polisiau i ganiatau i hen adeiladau traddodiadol gael eu adnewyddu fel tai fforddiadwy i bobl leol<br>Archwilio posibilrwydd o Ddatblygu Cymdeithas Gydweithredol Cymunedol i brynnu ac adnewyddu adeiladau | Cysylltu gyda Cwmpas; menter gymdeithasol arbenigol ar 'Community Led Housing'.<br>Ymchwilio Modelau Cyllido (pwy sy'n talu a sut?).<br>Cynnal cyfarfod i bobl gyda diddordeb i rannu profiad, gwybodaeth a sgiliau. |
| YNNI CYMUNEDOL ADNEWYDDADWY | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Ynni Adnewyddadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon a buddsoddi yn y gymuned.<br>**Byddwn yn:**<br>Ymchwilio i ddatblygu tyrbin dwr ar afon<br>Ymchwilio i ddatblygu ffermydd solar trefol a gwledig<br>Ymchwilio tyrbinau gwynt bychan | Creu/canfod corff i ymchwilio prosiect.<br>Dod a grwp gyda diddordeb ynghyd.<br>Canfod cysylltiadau perchnogion tir.<br>Ceisio cyllid ar gyfer astudiaeth dichonolrwydd.<br>Canfod gofodau tô (preifat a chymunedol) ar gyfer fferm solar.<br>Ymweliadau astudio i fentrau hydro a solar eraill.<br>Ymchwilio trwyddedau , cyswllt grid a chytundebau gyda chefnogaeth Ynni Padarn Peris (YPP). |

# > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| STORI'R TIR | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Hanes a Threftadaeth Byw er mwyn cipio doethineb cenedlaethau blaenorol, hybu hunaniaeth, cyswllt i'r tir, creadigrwydd a'r iaith Gymraeg<br>**Byddwn yn:**<br>Cynnal gweithdai 'pop-up' mewn cymunedau bychan i gasglu cynnwys storiau a chreu rhai newydd trwy amryw fynegiant creadigol.<br>Casglu'r storiau a'u gweu i mewn i storiau newydd, arddangosfeydd + pherfformiadau gan artistiaid lleol (ac ysgogi creadigrwydd sydd ym mhawb).<br>Ail-gysylltu ac ail-ddehongli y Mabinogi fel metafforau ar gyfer gofal y ddaear a'n gilydd. | Cysylltu gyda mentrau celfyddydol lleol a paratoi cais cyllido.<br>Partneru gyda mudiadau sydd yn casglu hen straeon + enwau lleoedd.<br>Parhau i gyd-weithio gyda disgyblion lleol - nhw gafodd y syniad yma!<br>Gweithio gyda Cae Mabon + Gwilym Morus Baird + artistiaid sydd yn gwneud gwaith tebyg eisioes.<br>Casglu hanesion chwarelwyr, ffermwyr, ecolegwyr a phreswylwyr. |



# > SYNIADAU GWEITHREDU

| Maes Gweithredu | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| RHANDIROEDD A GERDDI CYMUNEDOL | Dymuna Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris weithredu ym maes Rhandiroedd a Gerddi Cymunedol er mwyn dod a phobl ynghyd i dyfu gyda'i gilydd, annog cysylltiadau cymdeithasol a chyswllt byd natur a'r ddaear.<br>**Byddwn yn:**<br>Creu map bwyd cymunedol.<br>Canfod mannau caedig ar gyfer gardd/rhandir.<br>Rhannu bwyd a gwybodaeth.<br>Creu gofod i rannu hadau, sgyrsiau, offer a chwmni.<br>Creu micro erddi cymunedol + rhandiroedd i bobl dyfu eu hunain.<br>Creu grŵp sydd gyda diddordeb gweithio ar yr uchod. | Cael y gair allan a sgopio diddordeb.<br>Cysylltu gyda rhanddeilaid (Cynghorydd a Social Farms & Gardens).<br>Creu Grŵp.<br>Canfod 'lle'.<br>Creu gofodau ar y cyd a phrosiectau eraill e.e. Mynydd Gwefru a Pentref Taclus. |

# > GWYBODAETH BELLACH

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## Cefnogi a Chysylltu

Diolch i chi am ddarllen Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Peris. Gobeithio ei fod wedi sbarduno awydd i weithredu! Os hoffech chi ddysgu mwy am y syniadau sydd yn y Cynllun yma, neu eu cefnogi mewn unrhyw ffordd, cysylltwch heddiw: lowri@deg.cymru. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych ac yn croesawu unrhyw gefnogaeth.

## Adroddiad Llawn

Os hoffech gael trosolwg mwy manwl o broses gynulliadol GwyrddNi, y mudiad, partneriaid y bum ardal, y rhaglen addysg a llawer mwy ewch i: https://www.gwyrddni.cymru/ynglyn-a-gwyrddni/

## Cynlluniau Gweithredu

Gallwch weld Cynlluniau Gweithredu holl ardaloedd GwyrddNi yma: https://www.gwyrddni.cymru/cynlluniau-gweithredu

## Ar y Gweill

Mae aelodau'r Cynulliad Hinsawdd yn treialu hysbysfwrdd ar-lein i rannu digwyddiadau ac i gynnig a gofyn am gymorth ar gyfer tasgau. Gallwch ei weld yma - bit.ly/PostPeris

**I ymuno a rhestr bostio'r ardal - anfonwch ebost at peris@gwyrddni.cymru**

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD GWYRDDNI COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

DEG Datblygiadau Egni Gwledig

CWMNI BRO FFESTINIOG

PARTNERIAETH OGWEN

YR ORSAF

CYD YNNI

Ynni Llŷn

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND